

Henebion ar y Fferm

Historic Monuments on the Farm

The logo for Cadw, the Welsh heritage organization, featuring a white cross symbol on a green square background followed by the word "Cadw" in white text.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

gydag Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru
with the Welsh Archaeological Trusts



Bryngaer Castle Bank, Powys.

Castle Bank hillfort, Powys.

Y ddynolryw yw cyd-wneuthurwyr y dirwedd; hefyd, mae'n ei gwarchod — yn gwarchod nid yn unig ei phrydferthwch ond hefyd ei hystyr.

John Davies, *The Making of Wales*, Cadw 1996

Human beings are the co-makers of the landscape; in addition, they are its custodians — custodians not only of its beauty but also its meaning.

John Davies, *The Making of Wales*, Cadw 1996

Gofalu am Henebion ar y Fferm

Caring for Historic Monuments on the Farm



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

gydag Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru
with the Welsh Archaeological Trusts



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**gydag Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru
with the Welsh Archaeological Trusts**

Plas Carew
Uned/Unit 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd/Cardiff
CF15 7QQ

Ffôn:/Telephone: 01443 33 6000
Ffacs:/Fax: 01443 33 6001

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw 2006.
First published by Cadw 2006.
ISBN 1 85760 236 6
Hawlfraint y Goron/Crown Copyright 2006.

Llun clawr: Beddrod siambr Neolithig yn Eryri.
Cover photograph: Neolithic chambered tomb in Snowdonia.

**Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau gwahanol. Am fanylion cysylltwch
â Cadw yn y cyfeiriad uchod neu ffoniwch 01443 33 6000**

This publication is available in alternative formats. For details please contact
Cadw at the address above or telephone 01443 33 6000

Gofalu am Henebion ar y Fferm

Caring for Historic Monuments on the Farm

Mae Cymru'n enwog am ei henebion. Mae ein cestyll, ein carnau a'n cromlechi wedi swyno ymwelwyr ac wedi ennyn chwilfrydedd academyddion ers canrifoedd. Fodd bynnag, mae nifer o nodweddion hanesyddol eraill wedi goroesi fel tystiolaeth o weithgarwch a chyflawniadau ein hynafiaid. Dysgwyd llawer o'r hyn a wyddom am y gorffennol o'r henebion hyn, ac yng Nghymru gallwn barhau i olrhain hanes a chynhanes ein hynafiaid trwy'r olion o'n cwmpas.

Wales is renowned for its historic monuments. Our castles, cairns and cromlechs have impressed visitors and mystified academics for centuries. However, many other historic features survive as testimony to the activities and achievements of our predecessors. Much of what we know about the past has been learned from these monuments and in Wales we can still trace the history and prehistory of our ancestors through the physical remains around us.



Er bod ei garnedd gerrig orchuddiol wedi diflannu, mae'r beddrod siambr Neolithig yn Llwyneliddon ym Mro Morgannwg wedi sefyll am dros bum mil o flynyddoedd.

Although robbed of its covering stone cairn, the Neolithic chambered tomb at St Lythans in the Vale of Glamorgan has stood for over five thousand years.

Bu rheoli tir yn ffactor allweddol erioed o ran goroesiad nodweddion hanesyddol, a thirfeddianwyr a thenantiaid unigol sy'n gyfrifol am ofalu amdanynt o ddydd i ddydd o hyd. Cydnabyddir hyn drwy nifer o gynlluniau grant a mentrau sy'n annog amaeth gynaliadwy sy'n gydnaws â chynefinoedd naturiol a'r amgylchedd hanesyddol.

Mae'r llyfryn hwn yn disgrifio rhai o'r henebion a geir yng nghefn gwlad Cymru ac yn esbonio eu pwysigrwydd i'n dealltwriaeth o'r gorffennol. Mae hefyd yn ystyried y ffactorau sydd wedi effeithio ar eu goroesiad a'r pwysau a wynebir gan nifer o safleoedd heddiw. Mae'n disgrifio rhai o'r camau gweithredu syml sy'n gallu helpu ffermwyr a rheolwyr tir i warchod yr elfen bwysig hon o'r amgylchedd hanesyddol ehangach ar gyfer y dyfodol.

Goroesi

Yng Nghymru mae'r tywydd a'r dirwedd yn addas ar gyfer ffermio cymysg gyda phwyslais ar dda byw a thir pori. Mae arferion ffermio wedi datblygu mewn ymateb i dopograffi nodweddiadol Cymru, ac mae hyn wedi llunio ein heconomi a'n tirwedd fel ei gilydd. Er ein bod yn sicr wedi colli nifer o nodweddion traddodiadol, rydym wedi osgoi llawer o'r clirio mawr a welwyd mewn sawl rhan o iseldir Prydain. Yn wir, mae ffermwyr yng Nghymru yn aml wedi gwneud ymdrech arbennig i gadw nodweddion hanesyddol ar eu tir.

Os yw arferion ffermio wedi helpu, felly hefyd y mae gwydnwch deunyddiau adeiladu traddodiadol, a henebion pridd a charreg yw'r rhai amlycaf yn y dirwedd fodern.

Gwerth cudd: o dan y ddaear

Er y gallwn ryfeddu at ddyfeisgarwch ein hynafiaid wrth godi'r beddrodau carreg ysblennydd a'r gwrthfuriau pridd trawiadol, yn aml mae rhagor o wybodaeth i'w gweld o dan y ddaear. Gall rhagfuriau bryngaer gynhanesyddol ddenu sylw hyd yn oed heddiw, ond roedd tai'r trigolion yn aml yn llai sylweddol. Mae eu waliau clai a'u postiau pren wedi hen ddadfeilio. Yn aml, nid oes fawr i'w weld ar y wyneb i awgrymu faint o nodweddion archeolegol sydd o dan y ddaear. Er hynny, gall cloddio archeolegol gofalus ddatgelu'r tyllau lle bu'r pyst yn sefyll gynt, neu glai wal gwympedig. O olion mor aneglur mae'n bosibl adlunio cynllun y tŷ a gwahaniaethu rhwng rhannau gwahanol o'i fewn.

Land management has always been a critical factor in the survival of historic features and their day-to-day care falls still to individual landowners and tenants. This is acknowledged through a range of grant schemes and initiatives that encourage sustainable agriculture, sympathetic to natural habitats and the historic environment.

This booklet describes some of the monuments to be found in the Welsh countryside and explains their importance to our understanding of the past. It also considers the factors that have affected their survival and the pressures faced by many sites today. It describes some simple actions that can help farmers and land managers to preserve this important element of the wider historic environment for the future.

Survival

In Wales our weather and landscape suit mixed farming with an emphasis on livestock and pasture. Farming practice has evolved in response to the distinctive Welsh topography, and this has shaped both our economy and our landscape. Though we have certainly lost many traditional features, we have avoided much of the wholesale clearance seen in many parts of lowland Britain. Indeed, farmers in Wales have often gone out of their way to retain historic features on their land.

If farming practice has helped, then so too has the durability of traditional construction materials, and it is the monuments of earth and stone which are most readily identified in the modern landscape.

Hidden value: below the ground

While we may marvel at the ingenuity of our ancestors in constructing spectacular stone tombs and impressive earthen fortifications, there is often further information lying beneath the surface. The ramparts of a prehistoric hillfort might attract attention even today, but the houses of the inhabitants were often less substantial. Their clay walls and timber posts have long since decayed. Often, there is little on the surface to indicate the extent of the archaeological features below. Nevertheless, careful archaeological excavation can reveal the holes where posts once stood or the clay of a collapsed wall. From such faint remains it is possible to reconstruct the house plan and distinguish different areas within.



Mae bryngaer ysblennydd Garn Fawr yn dirnod amlwn yn y dirwedd o'i chwmpas, sydd hefyd yn cynnwys llawer o nodweddion hanesyddol eraill. Mae rhai o ffiniau'r caeau yn dyddio o gyfnod Oes yr Haearn (Hawlfraint y Goron: CBHC).

The spectacular hillfort of Garn Fawr dominates the surrounding landscape, which also contains many other historic features. Some of the field boundaries date back to the Iron Age (Crown Copyright: RCAHMW).

Henebion Cofrestredig

Gellir ‘cofrestru’ henebion o bwys cenedlaethol, a diogelir y safleoedd hyn rhag difrod o dan y gyfraith. Os oes heneb gofrestredig ar eich tir, bydd wedi’i chofrestru’n bridiant tir lleol yn y Gofrestrfa Tir. Hysbysir perchnogion a thenantiaid yn uniongyrchol gan Cadw o bryd i’w gilydd yn ogystal.

Mae’n ofynnol cael caniatâd ffurfiol (caniatâd a elwir yn ‘gydsyniad heneb gofrestredig’ neu ‘SMC’) gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud gwaith ar heneb gofrestredig (a gall hyn gynnwys gwaith buddiol a restrwyd isod yn ‘dewisiadau i’w hystyried’), a rhaid gwneud ceisiadau trwy Cadw. Gall fod yn drosedd os gwneir gwaith heb y caniatâd hwn. Os ydych yn ansicr, neu os oes angen cyngor arnoch, mae croeso i chi gysylltu â Cadw yn uniongyrchol.



Mae'r Gofrestr Henebion yn cynnwys nifer o safleoedd megis y maen hir uchod o'r Oes Efydd (uchod) — ond mae hefyd yn cynnwys safleoedd mwy diweddar fel amddiffynfeydd o'r Ail Ryfel Byd yn Nant Ffrancon yng Ngwynedd (isod).

The Schedule of Ancient Monuments contains many sites such as the Bronze Age standing stone (above)— but also includes later sites such as the World War II anti-invasion defences at Nant Ffrancon in Gwynedd (below).

Scheduled Ancient Monuments

Monuments of national importance may be ‘scheduled’ and these sites are protected by law from damaging works. If there is a scheduled monument on your land this will be registered as a local land charge at the Land Registry. Owners and tenants will also be notified directly from time to time by Cadw.

Work on a scheduled monument (and this includes beneficial work listed below in ‘options to consider’) requires the formal consent (known as ‘scheduled monument consent’ or ‘SMC’) of the Welsh Assembly Government. Applications must be made through Cadw. To carry out work without this consent may be a criminal offence. If you are unsure, or would like advice, please contact Cadw directly.



Gall nodweddion eraill oroesi sy'n datgelu mwy am fywyd pob dydd y trigolion. Gall cerrig llosgedig ddynodi aelwyd lle byddai bwyd yn cael ei goginio, a gallai gweddillion y bwyd ei hun fod wedi goroesi ar ddarnau o grochenwaith. Gall golosg roi dyddiad radiocarbon ar gyfer gweithgarwch o fewn y tŷ. Gallai draen wedi'i leinio â cherrig gynnwys paill, hadau a phryfed, sy'n datgelu llawer am yr amgylchedd a'r cnydau a dyfid. Gall esgyrn anifeiliaid roi syniad o ddulliau cynnar o reoli da byw, clefydau a thechnegau cigydda. Mewn amgylchiadau gwlyb gall paill ffosil a darnau microsgopig o bryfed oroesi, ac mae dadansoddiad o'r olion hyn yn dweud llawer wrthym am yr amgylchedd cynnar — o ran tymheredd, glawiad a llystyfiant.

Mae henebion claddu a defodol yn rhoi tystiolaeth werthfawr am fywyd yn y gorffennol, gan fod gweddillion dynol sydd wedi goroesi yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â thaldra, deiet ac iechyd ein hynafiaid. Drwy ein dealltwriaeth gynyddol o DNA efallai y cawn ddeall yn well gydberthnasau teuluol a symudiadau pobl o amgylch Prydain ac Ewrop.

Other features might survive that tell more about the everyday life of the inhabitants. Burnt stones can indicate a hearth where food was cooked and fragments of pottery might retain residues of the food itself. Charcoal can provide a radiocarbon date for activity within the house. A stone-lined drain may contain pollen, seeds and insects, revealing much about environmental conditions and the crops that were grown. Bone from animals can provide insight into early livestock management, diseases and butchery techniques. In wet conditions fossil pollen and microscopic fragments of insects may survive, and analysis of these remains tells us much about the early environment — temperature, rainfall and vegetation.

Burial and ritual monuments provide valuable evidence about life in the past, as preserved human remains contain information about the stature, diet and health of our ancestors. Our increasing understanding of DNA presents the exciting prospect of insight into family relationships and the movement of people around Britain and Europe.

*Darganfuwyd y mosäig Rhufeinig
ysblennydd hwn ychydig o dan y
tywarch mewn tir pori nas gwellwyd.
Byddai'r mosäig wedi'i ddinistrio pe
bai'r tir wedi'i aredig. Nid yw
dyddodion archeolegol a stratigraffeg
bob amser mor hawdd i'w dehongli
(Cynllun Henebion Cludadwy).*

*This fine Roman mosaic was
discovered just under the turf in
unimproved pasture. A single
episode of ploughing would
have destroyed it. Archaeological
deposits and stratigraphy are not
always so easy to interpret
(Portable Antiquities Scheme).*



Hyd yn oed gyda heneb sylweddol, erys llawer o'r wybodaeth yn gladdedig. Gall haenau gwahanol ddangos sut y codwyd rhagfur, tra gall arteffactau a gollwyd gan yr adeiladwyr ac a ymgorfforwyd yn yr adeiledd fod yn dystiolaeth o ddyddiad y gwaith. Gall y pridd claddedig hefyd gynnwys olion paill sy'n gallu dangos y llystyfiant a dyfai gerllaw ar adeg y gwaith adeiladu, ac o bosibl hyd yn oed tymor y flwyddyn.

Anaml iawn y mae henebion yn aros yn ddigyfnewid o'r adeg y codwyd hwy i'r adeg y rhoddwyd y gorau i'w defnyddio. Mae datod y dilyniant o ddifrod ac atgyweirio, dymchwel ac ailadeiladu, ehangu a lleihau, yn hanfodol i'n dealltwriaeth o'r gorffennol. Megis jig-so, rhaid creu'r darlun mawr yn ofalus o'r darnau bach hyn o dystiolaeth. Mae'r darnau unigol yn fregus ac yn hawdd eu hanhrefnu, ac unwaith y collir hwy, maent wedi mynd am byth. Yn aml mae eu safle yn allweddol, felly nid yw'n anodd gweld sut y gall gweithgarwch sy'n ymddangos yn ddiniwed ddileu olion aneglur o'r gorffennol o'r fath.

Even within a substantial monument much information lies buried. Distinct layers may show how a rampart was built, while artefacts lost by the builders and incorporated into the structure can provide evidence of date. The buried soil might also contain traces of pollen which can indicate the vegetation growing nearby at the time of construction, and possibly even the season of the year.

Monuments rarely remain the same from construction to abandonment. Disentangling the sequences of damage and repair, demolition and rebuilding, expansion and contraction, is critical to our understanding of the past. Like a jigsaw, the larger picture must be painstakingly built up from these small pieces of evidence. The individual fragments are fragile and easily disturbed, and once lost they are gone forever. Often their position is critical, so it is not difficult to see how seemingly harmless activities can remove such faint traces of the past.



Mae Clawdd Offa bellach yn rhan o'r Llwybr Cenedlaethol poblogaidd, sy'n cyfuno treftadaeth gyda buddiannau addysgol a thwristiaeth.

Offa's Dyke now forms the route of a popular National Trail, combining heritage with educational benefits and tourism.

Gwerth cudd: Cymru heddiw

Nid yw nodweddion hanesyddol yn perthyn i archeolegwyr a haneswyr yn unig. Maent yn adnodd i bawb ac yn gwneud cyfraniad mawr i'n heconomi heddiw. Maent yn rhan allweddol o'r dirwedd sy'n denu miloedd o ymwelwyr ac maent yn cynnal diwydiant twristiaeth ffyniannus. Maent yn ychwanegu diddordeb at ystod o weithgareddau hamdden cefn gwlad, ac yn cefnogi nifer fawr o fusnesau fferm amrywiol yn anuniongyrchol, o lety gwely a brewcwast i farchnadoedd ffermwyr.

Mae nodweddion hanesyddol yn rhan o'r etifeddiaeth y mae pob tîrffeddiannwr yn ei throsglwyddo i'w hollynwyr. Maent yn chwarae rhan bwysig i addysgu plant lleol ac yn rhoi naws am le a chyd-destun hanesyddol i'r gymuned.

Beth sydd ar fy nhir?

Er mwyn gofalu am y gorffennol mae angen i ni wybod lle i ddod o hyd i'r dystiolaeth, a'r hyn y dylem edrych amdano. Mae pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru yn cadw cofnodion o bob nodwedd hanesyddol hysbys, sef Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol. Dyma'r man cychwyn i unrhyw un sydd am wybod yr hyn sy'n hysbys yn yr ardal ar fferm unigol. Mae'r Cofnod Henebion Cenedlaethol, a gedwir gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC), hefyd yn cynnwys cofnodion manwl o henebion hanesyddol ac yn cynnwys cofnod mwy cyflawn o adeiladau hanesyddol. Cewch weld y ddau gofnod yn ddi-dâl, ond efallai bydd angen i chi drefnu apwyntiad.

Mae hefyd yn bosibl gweld gwybodaeth dros y rhyngwryd, drwy ymweld â chronfa ddata CARN (Mynegai Creiddiol i Gofnodion Archeolegol) CBHC yn www.rcahmw.org.uk/cymraeg/data/carn.shtml neu gronfa ddata Coflein yn www.coflein.gov.uk. Darperir manylion cyswllt ar y clawr cefn.

Fodd bynnag, erys nifer o safleoedd archeolegol heb eu darganfod, tra bod eraill yn hysbys i unigolion ond heb eu cofnodi mewn cofnodion ffurfiol. Mae Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru a CBHC yn croesawu gwybodaeth ynglŷn â darganfyddiadau newydd.

Beth y gellir ei wneud i warchod y gorffennol?

Gall mathau gwahanol o ddefnydd tir roi pwysau penodol ar nodweddion hanesyddol. Yn aml, gall newidiadau bach o ran dulliau rheoli tir arwain at welliannau sylweddol.

Hidden value: Wales today

Historic features do not belong to archaeologists and historians alone. They represent a resource for everyone and make a huge contribution to our economy today. They are a critical part of a landscape that attracts millions of visitors and underpins a thriving tourist industry. They add interest to a range of countryside leisure activities and indirectly support a wide range of diversified farm businesses, from bed-and-breakfast accommodation to farmers' markets.

Historic features are part of the legacy that all landowners hand on to their successors. They play an important role in the education of local children and provide a sense of place and historical context for the community.

What is there on my land?

To care for the past we need to know where the evidence lies and what to look for. The four Welsh Archaeological Trusts maintain records of all known historic features, the Historic Environment Record (HER). This is the starting place for anyone wanting to learn about what is known in the area on an individual farm. The National Monuments Record, held by the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales (RCAHMW), also contains detailed records of historic monuments and has a more complete record of historic buildings. Access to both is free but an appointment may be necessary.

Information is also accessible on the internet, by visiting the RCAHMW's CARN database (Core Archaeological Record Index) at www.rcahmw.org.uk/data/carn.shtml or the Coflein database at www.coflein.gov.uk. Contact details are provided on the back cover.

However, many archaeological sites lie still undiscovered, while others will be known to individuals but not recorded in any formal records. The Welsh Archaeological Trusts and RCAHMW always welcome information on new discoveries.

What can be done to protect the past?

Different types of land use may place particular pressures on historic features. Often, modest changes in management can result in significant improvements.

Gofalu am henebion ar laswelltir, gweundir a rhos

Er bod glaswelltir wedi'i reoli'n dda yn fuddiol yn gyffredinol i safleoedd archeolegol, gall difrod ddigwydd o hyd. Gwell rhwystro'r clwy na'i wella, felly edrychwch am arwyddion y gallai heneb fod mewn perygl, a cheisiwch atal hyn. Dylech gael cyngor archeolegol ar bob achlysur os ydych yn ystyried gwneud gwaith atgyweirio neu os bydd camau gweithredu rheoli yn amharu ar y ddaear.

Mathru neu erydu gan dda byw

Gall dda byw wneud difrod i safleoedd archeolegol drwy fathru neu greu creithiau erydiad. Gall hyn anffurfio heneb ac amharu ar y wybodaeth y mae'n ei chynnwys. Weithiau mae hyn yn digwydd oherwydd bod gormod o dda byw ar safle, ond yn amlach na pheidio mae hyn yn gysylltiedig â symud da byw neu fannau ymgynnull, megis pyrth neu fannau bwyta. Gall erydiad gan dda byw fod yn broblem arbennig o amgylch henebion megis meini hirion neu henebion adfeiliedig. Yn aml, bydd creithiau erydiad yn parhau i waethygu oni chânt eu hatgyweirio. Gellir sefydlogi creithiau bach drwy sicrhau na all da byw fynd atynt a rhoi cyfle i laswellt aildyfu, ond efallai y bydd angen gwaith atgyweirio manwl ar greithiau mwy o faint gyda thywarchen neu bridd.



Mae creithiau erydu (uchod) ar Mwnt Aber, Gwynedd, wedi'u trwsio nawr dan raglen gwaith cyfalaf Tir Gofal. Bydd y atgyweiriadau (uchod dde) yn sicrhau yr adferir siâp y mwnt gan alluogi gwair i aildyfu (cyferbyn).

Caring for monuments on grassland, moorland and heath

Although well-managed grassland is generally beneficial to archaeological sites, damage can still occur. Prevention is better than cure, so look for signs that a monument might be under stress and try to remove the cause. Always obtain archaeological advice if repair work is considered or if management action will disturb the ground.

Livestock poaching or erosion

All livestock can damage archaeological sites through poaching or by creating erosion scars. This can disfigure a monument and damage the information it contains. Sometimes this happens just through over-stocking, but more commonly it is associated with livestock movement or gathering points, such as gateways and feeders. Stock erosion can be a particular problem around monuments such as standing stones or ruinous structures. Erosion scars will often continue to develop if not repaired. Small scars can be stabilized by excluding stock and allowing grass to regenerate but larger scars may need careful repair with turf or soil.



The erosion scars (above left) on Aber Motte in Gwynedd have now been repaired under a Tir Gofal capital works programme (above). The repairs will ensure that the shape of the motte is restored and the grass is allowed to recover (opposite).



Dewisiadau i'w hystyried

- Lleoli cafnau dŵr ac offer bwydo mewn ardaloedd llai sensitif
- Symud offer bwydo yn rheolaidd er mwyn lleihau effaith
- Peidio â gadael i dda byw bori wrth ymyl heneb yn ystod amgylchiadau gwlyb pan fo'r heneb yn fwy agored i ddifrod
- Addasu nifer y da byw, yn enwedig ar gyfer da byw mwy o faint, megis gwartheg a cheffylau, sy'n gallu amharu'n ddirfawr ar gloddweithiau, neu newid i fath ysgafnach o dda byw i leihau'r posibilrwydd o ddifrod
- Cynnal a chadw ffiniau i atal da byw
- Gosod ffensys newydd a/neu adleoli pyrth i gynorthwyo rheoli da byw
- Atgyweirio creithiau erydiad gydag arweiniad priodol

Options to consider

- Locate water troughs and feeders in less sensitive areas
- Regularly move feeders to minimize impact
- Exclude livestock during wet conditions when the monument is more vulnerable
- Adjust stocking levels, particularly for larger livestock, such as cattle and horses, which can cause greater disturbance to earthworks, or change to a lighter stock type to minimize the potential for damage
- Maintain stock-proof boundaries in good condition
- Install new fencing and/or relocate gateways to assist stock management
- Repair erosion scars with appropriate guidance

Defnydd o gerbydau fferm

Gall cerbydau achosi difrod pan fo rhigolau olwynion yn torri i mewn i'r ddaear, yn enwedig ar lethr. Mae hon yn broblem arbennig mewn amgylchiadau gwlyb. Mae'r ardal sydd wedi'i difrodi yn mynd yn fwy wrth i yrrwyr chwilio am lwybrau newydd ar draws y safle. Gall cerbydau hefyd wrthdaro'n ddamweiniol â nodweddion sy'n sefyll, gan ddisodli neu ansefydlogi cerrig a gwaith maen.

Dewisiadau i'w hystyried

- Defnyddio llwybr amgen i ffwrdd oddi wrth y safle archeolegol
- Ar adegau allweddol o'r flwyddyn, defnyddio cerbydau ysgafnach neu gerbydau sydd â theiars pwysedd ddaear isel
- Sefydlu un llwybr parhaol. Gall hyn olygu cryn amharu ar y ddaear, felly dylid ceisio cyngor archeolegol cyn cyflawni gwaith
- Cadw cerbydau i ffwrdd oddi wrth olion sy'n sefyll
- Sicrhau bod gyrwyr yn meddu ar y sgiliau i osgoi gwrthdrawiadau

Use of farm vehicles

Vehicles can cause disturbance when wheel ruts cut into the ground, especially on a slope. This is a particular problem in wet conditions. The area of disturbance spreads as new routes are sought across the site. Vehicles may also accidentally strike upstanding features, displacing or destabilizing stones and upstanding masonry.

Options to consider

- Use an alternative route away from the archaeological site
- At critical times of the year, use lighter vehicles or vehicles fitted with low ground pressure tyres
- Create a single permanent route. This may require major ground disturbance, so seek archaeological advice before carrying out work
- Keep vehicles away from upstanding remains
- Ensure drivers have the skills needed to avoid collision



Gall erydu gan gerbydau achosi difrod mawr i henebion hanesyddol. Roedd y crug crwn hwn (a groesir gan ffens) o'r Oes Efydd yn cael ei dorri gan lwybr cerbydau (uchod). Codwyd rhwystr ac arwyddion i atal difrod pellach (isod). Mae traciau cerbydau yn erydu'r cloddiau pridd ar y safle hwn o Oes yr Haearn (cyferbyn) (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Vehicle erosion can cause serious damage to historic monuments. This Bronze Age round barrow (crossed by the fence) was being cut by a vehicle track (above). A barrier and signs were erected to prevent further damage (below). Vehicle tracks are eroding the earth banks of this Iron Age site (opposite) (Crown Copyright: RCAHMW).



Gellir gweld effaith aredig ar gloddweithiau hynafol yn y safle hwn. Mae'r tir caeëdig mewnol, na chafodd ei aredig, wedi goroesi; ond mae'r cloddiau allanol wedi'u gwasgaru drwy aredig mynych (Hawlfraint y Goron: CBHC).

The impact of ploughing on ancient earthworks can be seen at this site. The inner enclosure, which has not been ploughed, survives; but the outer banks have been spread by repeated ploughing (Crown Copyright: RCAHMW).



Gwella glaswelltir

Efallai mai glaswelltir parhaol yw'r gyfundrefn reoli fwyaf sefydlog ar gyfer safleoedd archeolegol, ac yn aml mae'r gadwraeth yn dda iawn. Nid yw defnyddio calch, gwrtaith a chwynladdwyr yn debygol o wneud difrod i olion hynafol.

Fodd bynnag, gall olion pwysig oroesi ychydig o dan wyneb y ddaear, felly gall unrhyw beth sy'n torri tir achosi difrod. Os oes angen ail-hau, dylid defnyddio dulliau megis drilio uniongyrchol a rhychio hadau, sy'n achosi'r myrraeth leiaf, os yw'n bosibl. Mae symud cerrig maes, dadwreiddio llystyfiant prysgaidd, cloddio draeniau newydd a thrin y tir oll yn achosi difrod mawr i unrhyw nodweddion hanesyddol.

Dewisiadau i'w hystyried

- Rheoli chwyn drwy eu torri neu ddefnydd wedi'i dargedu o chwynladdwyr dethol
- Os oes angen ail-hau, defnyddio technegau trin y tir sydd â'r effaith leiaf
- Gofyn am gyngor (trwy gais sgrinio Asesu Effaith Amgylcheddol) cyn trin y tir neu symud cerrig maes a chlogfeini o unrhyw dir pori parhaol

Grassland improvement

Permanent grassland provides perhaps the most stable management regime for archaeological sites and preservation is often very good indeed. The application of lime, fertilizers and herbicides is unlikely to damage ancient remains.

However, important remains can survive just beneath the surface so any disturbance is potentially damaging. If reseeded is necessary then methods such as direct drilling and seed slotting, which cause minimal disturbance, should be used if possible. The removal of field stone, the uprooting of scrub vegetation, the excavation of new drains and the cultivation of the soil all cause significant damage to any historic features.

Options to consider

- Control weeds by topping or targeted use of selective herbicides
- If reseeded is required, use minimal cultivation techniques
- Seek advice (through an Environmental Impact Assessment screening application) before cultivation or removal of field stones and boulders from any permanent pasture

Adnewyddu tir pori

Mae llawer o nodweddion hanesyddol yng Nghymru yn sefyll mewn tir pori sy'n cael ei drin o bryd i'w gilydd i wella'i gyfansoddiad cyn ail-hau. Er mai anfynych y mae hyn yn digwydd, bob tro y caiff tir ei aredig, gallai hyn ddileu rhan arall o unrhyw archeoleg sydd o dan y ddaear.

Dewisiadau i'w hystyried

- Sicrhau nad yw'r tir yn cael ei drin yn ddyfnach nag yn y gorffennol
- Defnyddio triniaeth ar yr wyneb i wella ffrwythlondeb y tir
- Ystyried troi tir bas yn hytrach nag aredig

Gwaith draenio

Mae draenio tir yn elfen bwysig o reoli glaswelltir a gall fod yn fuddiol i gadwraeth archeolegol, gan helpu i osgoi dŵr yn cronni, mathru gan dda byw, a siltio nodweddion megis ffosydd. Fodd bynnag, gall gwaith gosod a chynnal a chadw systemau draenio hefyd dorri i mewn i safleoedd archeolegol gan achosi difrod.

Yn achlysurol, gall draen tir newydd sychu dyddodion archeolegol a fu'n ddyfrlawn yn flaenorol, a gellir colli arteffactau organig neu olion amgylcheddol pwysig.

Dewisiadau i'w hystyried

- Gosod manau mynediad y tu allan i'r safle archeolegol i alluogi cynnal a chadw'r draeniau tir trwy'r safle heb angen cloddio
- Os yw draeniau tir newydd yn cael eu gosod, sicrhau eu bod i ffwrdd oddi wrth y safle archeolegol
- Gofyn am gyngor ynglŷn â'r llwybrau lleiaf niweidiol ar gyfer draeniau

Prysgwydd neu redyn yn gordyfu

Os nad oes pori digonol efallai y bydd prysgwydd, rhedyn a chwyn yn tyfu dros heneb. Gall gwreiddiau, yn enwedig gwreiddgyffion rhedyn, dreiddio dyddodion archeolegol gan amharu arnynt, tra bo'r tyfiant uwchben y ddaear yn guddfan

Pasture renewal

Many historic features in Wales lie in pasture that has been periodically cultivated to improve its composition in advance of reseeded. Although this may take place quite infrequently, each ploughing potentially removes a fraction more of any underlying archaeology.

Options to consider

- Ensure cultivation is no deeper than in past years
- Use surface treatment to improve soil fertility
- Consider shallow rotavation rather than ploughing

Drainage works

Land drainage is an important element of grassland management and can be beneficial to archaeological preservation, helping to prevent surface waterlogging, poaching by livestock, and the silting-up of features such as ditches. However, the installation and maintenance of drainage systems can also cut into archaeological sites causing damage.

Occasionally a new land drain may dry out previously waterlogged archaeological deposits, and important organic artefacts or environmental remains might be lost.

Options to consider

- Install access points outside the archaeological site to permit the land drains through the site to be maintained without the need for excavation
- If new land drains are being installed, ensure that these are away from the archaeological site
- Take advice on the least damaging route for drains

Scrub or bracken encroachment

Insufficient grazing may allow scrub, bracken and weeds to colonize a monument. Roots, particularly the rhizomes of bracken, can penetrate archaeological deposits causing disturbance while the growth above ground provides cover

Mae rheoli amddiffynfeydd nodedig yr Oes Haearn ar hyd Bryniau Clwyd yn sir Ddinbych yn golygu sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion cadwraeth treftadaeth, ffermio defaid, rheoli grug a phwysau cynyddol gan ymwelwyr (Mick Sharp Photography).

Management of the impressive Iron Age fortifications along the Clwydian Range in Denbighshire means balancing the needs of heritage conservation with those of sheep farming, heather management and increasing visitor pressure (Mick Sharp Photography).



i anifeiliaid tyrchol. Mae da byw yn aml yn ymgynnull ymysg prysgwydd er mwyn cael cysgod, ac mae hyn yn tueddu i ganolbwyntio gweithgarwch ac achosi mathru ac erydu. Mae felly yn ddimunol i leihau faint o brysgwydd a rhedyn sy'n tyfu ar safle archeolegol i leihau difrod o'r fath i'r eithaf a sicrhau bod y cloddwaith yn weladwy o hyd.

Gall prysgwydd fod yn bwysig yn ecolegol, a dylid cwblhau gwaith clirio helaeth mewn cyfnodau. Gall dadwreiddio prysgwydd a llystyfiant yn fecanyddol fod yn ddinistriol iawn i'r archeoleg. Yn lle hynny, dylid torri'r bonion yn agos at lefel y ddaear a'u trin â chwynladdwr i atal aildyfiant. Dylid gwaredu'r deunydd toredig ymhell oddi wrth y safle archeolegol.

Dewisiadau i'w hystyried

- Rheoli prysgwydd drwy dorri ar lefel y ddaear a'i drin â chwynladdwr i atal aildyfiant
- Osgoi dadwreiddio llystyfiant a phrysgwydd gan fod hyn yn gallu amharu ar unrhyw archeoleg o dan wyneb y ddaear
- Cynyddu pori lle bo'n ymarferol i helpu i atal prysgwydd neu redyn rhag aildyfu

for burrowing animals. Livestock often gathers amidst scrub for shelter and this tends to focus activity and cause trampling and erosion. It is therefore desirable to reduce the amount of scrub and bracken on an archaeological site to minimize this damage and maintain the visibility of earthworks.

Scrub may have ecological importance, and extensive clearance should be phased. Uprooting scrub and grubbing out vegetation mechanically can be very destructive to the archaeology. Instead, stumps should be cut close to ground level and treated with herbicide to prevent regrowth. The cut material should be disposed of well away from the archaeological site.

Options to consider

- Control scrub by cutting at ground level and treating with a herbicide to prevent re-growth
- Avoid grubbing out vegetation and uprooting scrub as this can disturb any underlying archaeology
- Increase grazing where practical to help control scrub or bracken recovery